



Cymorth Materion Tai

RHONDDA CYNON TAF

Sut rydyn ni'n gallu helpu?



RHONDDA CYNON TAF

Sut rydyn ni'n gallu helpu?

Mae modd i Wasanaethau Cymorth Materion Tai eich cynorthwyo chi i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnoch chi i fyw'n annibynol. Mae hyn yn golygu cael rhywle i fyw a'r gallu i gael bywyd diogel a hapus.

Mae modd i'r garfan roi cymorth ichi gyda'ch tenantiaeth gyfredol neu wrth ddechrau tenantiaeth newydd. Mae hefyd modd i'r garfan eich cynorthwyo chi os nad oes gennych chi denantiaeth ac mae'r garfan yn cynnig Llety â Chymorth.

Mae modd i'r cymorth gynnwys:



Cymorth wrth roi trefn ar y cartref ac edrych ar ei ôl, gan gynnwys rheoli tenantiaeth



Cymorth gyda chyllido, dyledion (e.e. ôl-ddyledion rhent), budd-daliadau, rheoli arian a chynyddu incwm



Cymorth wrth feithrin sgiliau byw ymarferol



Cyfeirio at a chefnogi cysylltiadau ag asiantaethau eraill megis Gwasanaethau Cyffuriau/Alcohol, Meddyg Teulu, Iechyd Meddwl ac ati



Cymorth wrth chwilio am waith, derbyn hyfforddiant, gwirfoddoli neu ddod o hyd i weithgareddau yn eich ardal leol



Cyngor ar faterion yn ymwneud â thai, ôl-ddyledion, cael eich hel o'r tŷ ac ati



Cymorth wrth lenwi neu ddarllen ffurflenni (e.e. llythyron a biliau)



Cymorth wrth symud a dod o hyd i lety amgen

Sut mae gwneud cais?

Mae angen cwblhau ffurflen atgyfeirio.

Mynnwch ffurflen atgyfeirio trwy gysylltu â:

Carfan Grant Cymorth Tai
Tŷ Sardis, Heol Sardis,
Pontypridd CF37 1DU

01443 281482

CymorthiBobl@rctcbc.gov.uk

Mae modd i chi gwblhau ffurflen atgyfeirio eich hun, neu gall rywun arall ei chwblhau ar eich rhan chi.

Os ydych chi'n derbyn cymorth gan weithiwr proffesiynol arall, fel gweithiwr cymdeithasol, swyddog prawf, neu aelod o'ch teulu, bydd e/hi yn gallu eich helpu chi i lenwi'r ffurflen yma.

Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen yma ar ran rywun arall, trafodwch y mater gyda fe/hi a gwnewch yn siŵr ei fod/ei bod yn cydsynio i dderbyn cymorth.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Os ydych chi wedi gwneud cais am lety â chymorth:

Bydd darparwr cymorth yn cysylltu â chi o fewn 15 diwrnod wedi inni dderbyn eich ffurflen atgyfeirio i gwblhau asesiad.

Os ydych chi wedi gwneud cais am gymorth cyffredinol yn ymwneud â llety:

Bydd darparwr cymorth yn cysylltu â chi o fewn 5 diwrnod wedi inni dderbyn eich ffurflen atgyfeirio i gwblhau asesiad.

Beth yw'r gost?

Mae Gwasanaethau Cymorth Materion Tai am ddim. Rydyn ni'n ariannu darparwyr cymorth i'ch cynorthwyo chi.

Fodd bynnag, os ydych chi'n manteisio ar lety â chymorth, tŷ gwarchod neu lety i ffoaduriaid, mae'n bosib bydd rhai costau bydd yn rhaid ichi eu talu. Trafodwch hyn ymhellach gyda'r darparwr cymorth os ydych chi'n cael eich derbyn i fod yn rhan o gynllun.

Os na fyddaf i'n fodlon, beth fydd yn digwydd?

Os dydych chi ddim yn fodlon ar ganlyniad eich atgyfeiriad, neu'r ffordd rydyn ni wedi delio â'ch cais am gymorth, cysylltwch â'r Rheolwr Grant Cymorth Tai.

Cyfeiriad: 📄 **Carfan Grant Cymorth Tai**
Tŷ Sardis, Heol Sardis
Pontypridd CF37 1DU

Rhif ffôn: ☎ **01443 281482**

E-bost: ✉ **CymorthiBobl@rctcbc.gov.uk**

Os ydych chi'n anfodlon ar y GWASANAETH CYMORTH rydych chi'n ei dderbyn, rhwch wybod i'r darparwr cymorth.

Mae gan bob sefydliad ei weithdrefnau cwynion ei hun.

Os ydych chi'n anfodlon gyda chanlyniad eich cwyn i'r darparwr cymorth neu heb allu gwneud cwyn, cysylltwch â'r Garfan Grant Cymorth Tai.